



## Defnyddio cerbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir (ATV) yn ddiogel mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth

### Cyflwyniad

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi cyngor ar ddefnyddio cerbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir (ATV) yn ddiogel. Mae'n ymdrin â'r ddau brif fath a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth, sef:

- cerbydau ATV y mae eu gyrwyr yn eistedd â'u coesau o boptu iddynt: unrhyw gerbyd â modur a gynlluniwyd i deithio ar bedair olwyn bwysedd isel ar arwynebau heb darnac, ac sydd â sedd y bwriedir i'r gweithredwr eistedd â'i goesau o boptu iddi a chyrn i reoli'r llyw. Bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan weithredwr unigol heb unrhyw deithiwr. Fodd bynnag, mae'r math hwn hefyd yn cynnwys cerbydau ATV y bwriedir iddynt gael eu defnyddio gan weithredwr unigol, ond sydd â sedd arbennig ar gyfer teithiwr y tu ôl i'r gweithredwr. Fel arfer gelwir y cerbydau hyn yn gerbydau ATC mewn amaethyddiaeth, beiciau cwad pan fyddant yn cael eu defnyddio at ddibenion hamdden a beiciau sy'n addas ar gyfer pob math o dir (ATC) mewn coedwigaeth;
- peiriannau y mae'r gyrwyr yn eistedd ynddynt: cerbydau minigyfleustod ochr wrth ochr, y mae ganddynt olwyn lywio fel arfer, lle mae'r gyrwr yn eistedd mewn sedd gonfensiynol ac mae seddi fel arfer ar gyfer un neu ragor o deithwyr. Yn aml gelwir y rhain yn gerbydau ATV mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Y cerbydau ATV a gwmpesir gan y daflen hon yw'r rhai a gynlluniwyd i gael eu gyrru oddi ar y ffordd yn unig. Fodd bynnag, gall defnyddwyr amaethyddol, garddwriaethol a defnyddwyr mewn coedwigaeth gofrestru cerbyd ATV fel 'Cerbyd amaethyddol ysgafn' at ddibenion gwneud defnydd cyfyngedig ohono ar y ffordd mewn cysylltiad â'u busnes (gweler 'Defnyddio cerbydau ATV ar y ffordd').

### Damweiniau

Mae'r ddau fath o beiriant wedi'u cynllunio i ddygymod ag amrywiaeth eang o fathau o dir, gan gynnwys llethrau serth, ond os cânt eu defnyddio y tu allan i'w paramedrau gweithredu diogel gallant fynd yn ansefydlog yn gyflym iawn. Dyna pam y mae'r mwyafrif o ddamweiniau cerbydau ATV yn cynnwys y cerbyd yn troi drosodd.

Ar gyfartaledd, mae dau berson yn marw bob blwyddyn mewn damweiniau yn cynnwys cerbydau ATV. Amcangyfrif bod damweiniau nad ydynt yn rhai angheuol yn rhoi cyfrif am dros 1000 o anafiadau difrifol y flwyddyn. Fel arfer achosion sylfaenol damweiniau oedd un neu ragor o'r canlynol:


- diffyg hyfforddiant strwythuredig a/neu brofiad;
- dillad anghywir/diffyg dillad diogelu;
- gyrru'n rhy gyflym;
- cludo teithiwr neu lwyth anghytwys;
- troi drosodd ar lethr, ffos, rhigol neu ddarn garw;
- llethr serth ar y cyd â ffactorau eraill, ee cyflwr y tir a'r llwyth;
- halio llwythi rhy fawr â chyfarpar nad oes ganddo unrhyw freciau.

### Taflen Wybodaeth Amaethyddiaeth Rhif 33W

#### Cynllunio llwybrau a sefydlogrwydd

Digwyddodd y mwyafrif o ddamweiniau yn cynnwys y peiriannau hyn pan oeddynt yn cael eu gyrru ar lwybrau newydd dros dir serth am y tro cyntaf, neu pan oeddynt yn cludo neu'n llusgo llwythi ansefydlogi. Pan fyddwch yn teithio dros dir garw, ymgyfarwyddwch â'ch tir eich hun a glynwch wrth lwybrau a gynlluniwyd lle bynnag y bo modd. Cerddwch ar hyd lwybrau newydd os oes angen i chwilio am rwystrau cuddiedig. Darparwch ar gyfer newidiadau yng nghyflwr y tir ac ar gyfer effaith ansefydlogi llwythi neu atodiadau.

#### Cerbydau ATV y mae eu gyrwyr yn eistedd â'u coesau o boptu iddynt (beiciau cwad/cerbydau ATC)



#### COFIWCH - SICRHEWCH EICH BOD YN DERBYN YR HYFFORDDIANT CYWIR A GWISGWCH HELMED BOB AMSER

##### Hyfforddiant

O dan Reoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER), mae gofyniad cyfreithiol i gyflogwyr ddarparu hyfforddiant digonol, a sicrhau mai dim ond cyflogeion a dderbyniodd hyfforddiant digonol ar sut i'w defnyddio'n ddiogel, gan gynnwys defnyddio unrhyw gyfarpar neu atodiadau sy'n cael eu halio, y caniateir iddynt yrru cerbydau ATV. Mae'r un gofynion yn berthnasol i bobl hunangyflogedig. Mae HSE yn ystyried bod hyfforddiant a ddarperir gan ddarparwyr hyfforddiant cydnabyddedig yn 'ddigonol' at ddibenion PUWER.

Ceir manylion am gyrsiau hyfforddi addas gan werthwyr cerbydau ATV rhyddfrait, o wefannau gweithgynhyrchwyr, gan EASI (Sefydliad Diogelwch Cerbydau ATV Ewrop), y Comisiwn Coedwigaeth a LANTRA. Mae hyfforddiant hefyd ar gael gan hyfforddwyr amaethyddol a cholegau a achredwyd gan y cyrff hyn.

## Dillad diogelu

Mae mwy na hanner yr holl yrwyr cerbydau ATV wedi'u taflu oddi ar eu cerbyd ryw bryd neu'i gilydd. Am nad oes gan y peiriannau hyn na chaban na bar rholio, yr unig beth sy'n eich diogelu yw'r hyn yr ydych yn ei wisgo.

- **Mae helmed yn hanfodol.** Achoswyd y mwyafrif o farwolaethau yn gysylltiedig â cherbydau ATV yn y DU yn ystod y pum mlynedd diwethaf gan anafiadau pen. Ni laddwyd unrhyw un a oedd yn gwisgo helmed mewn damwain yn cynnwys cerbyd ATV yn y DU. **Dylech bob amser wisgo helmed pan fyddwch yn gyrru cerbyd ATV.** Mae mathau o helmed yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer gweithrediadau ATV, gan ddibynnu o dan ba amgylchiadau y maent yn cael eu defnyddio, yn cynnwys helmedau beiciau modur sy'n cydymffurfio â BS 6658:1985 neu reoliad UN ECE 22.05, helmedau marchogaeth sy'n cydymffurfio â BS EN 1384:1997, gan gynnwys helmedau cerbydau ATV arbenigol, helmedau beiciau sy'n cydymffurfio â BS EN 1078:1997 a helmedau mynydda sy'n cydymffurfio â BS EN 12492:2000. Dylai fod gan bob helmed strap gêm a dylai fod yn bosibl ei defnyddio gyda dyfais addas i ddiogelu'r llygaid. Dylai'r math o helmed a ddewisir fod yn seiliedig ar asesiad o'r amgylchiadau lle y defnyddir y cerbyd ATV, ee y mathau o arwyneb y bydd y cerbyd ATV yn teithio drostynt a'r cyflymderau disgwylidig. Po galetaf yw'r arwyneb a pho uchaf y cyflymder po fwyaf o ddiogelwch sydd ei angen. **DS: Nid yw helmedau coedwigaeth a hetiau caled diwydiannol yn dderbyniol ar gyfer unrhyw weithrediadau yn cynnwys cerbydau ATV.**
- Gwisgwch ddillad sy'n gryf ac yn gorchuddio eich breichiau a'ch coesau. Mae menig yn ddefnyddiol ar gyfer diogelu dwylo a'u cadw'n dwym mewn tywydd oer fel y gallwch reoli'r cerbyd ATV yn gywir. Gwisgwch esgidiau cryf sy'n gorchuddio'r fferau, ee esgidiau neu welingtons sy'n gryf, sy'n cynnal eich coesau ac sy'n gafael yn dda pan fyddant yn wlyb.
- Diogelwch eich llygaid rhag pryed a changhennau trwy wisgo cysgod llygaid neu goglau.

## Teithwyr

**Peidiwch byth â chludo teithiwr ar gerbyd ATV y mae ei yrrwr yn eistedd â'i goesau o boptu iddo oni bai iddo gael ei gynnllunio, a'i fod yn addas, i'r diben hwnnw.** Diben y sedd hir yw galluogi gweithredwyr i symud pwysau eu corff yn ôl ac ymlaen i ddelio â gwahanol lethrau, nid cludo teithwyr. Mae'n rhaid i deithwyr ar gerbydau ATV a addaswyd yn arbennig wisgo helmed ddiogelwch. Peidiwch â chludo teithiwr mewn ôl-gerbyd am y gall unrhyw symudiad ansefydlogi'r peiriant, yn arbennig os oes gan y cerbyd grogiant ôl annibynnol ac os oes gan yr ôl-gerbyd echelau sy'n lletach na'r cerbyd ATV.

## Gwiriadau diogelwch a gwaith cynnal a chadw

Mae defnyddio cerbydau oddi ar y ffordd yn arbennig o galed ar gyfarpar felly mae'n hanfodol gwneud gwiriadau diogelwch a gwaith cynnal a chadw yn unol ag argymhellion y gweithgynhyrchwr. Yn arbennig, dylai gwiriadau diogelwch a wneir cyn i chi yrru'r cerbyd **bob amser** gynnwys:

- pwysedd y teiars. Mae'r rhain yn isel, ee tua 2-7 psi, felly gall gwahaniaeth o hyd yn oed 1 psi (0.07 kg/cm<sup>2</sup>) yn y pwysedd achosi problemau o ran rheoli cerbydau. Defnyddiwch fesurydd a gynlluniwyd i fesur ac arddangos pwyseddau isel – a gyflenwir gyda'r cerbyd ATV fel arfer;
- brecioau a'r throthl. Sicrhewch y gall y brecioau stopio'r cerbyd yn ddiogel mewn llinell syth a bod y throthl yn gweithio'n llyfn ym mhob safle llywio. Gall brecioau fod yn gymharol fyrhoedlog mewn amgylchiadau ffermio neu amgylchiadau coedwigaeth ac mae angen eu glanhau yn aml, eu cywiro'n rheolaidd a'u cynnal a'u cadw'n gywir.

## Dulliau gyrru diogel

Mae cerbydau ATV yn beiriannau yr effeithir arnynt gan symudiadau'r gyrrwr ac felly mae ystum y gyrrwr yn hanfodol bwysig er mwyn ei weithredu'n gywir. Mae hyn yn golygu bod angen i'r gyrrwr newid ystum ei gorff gan ddibynnu ar y tir a symudiad y cerbyd. Mae'n rhaid i yrwyr allu symud a chydbwysu momentwm y cerbyd ATC â phwysau eu cyrff eu hunain. Cynlluniwch lwybrau (ac adolygwch y cynllun os defnyddir y llwybr yn rheolaidd) i asesu'r risgiau.

## Ni all y cyngor canlynol ddisodli hyfforddiant ffurfiol.

- Nid oes gan y mwyafrif o gerbydau ATV unrhyw ddifferyn ac felly nid ydynt yn llywio yn yr un ffordd â pheiriannau eraill. Mae hyn yn golygu pan fyddwch yn troi, fod y cerbyd ATV yn ceisio cadw i fynd mewn llinell syth.
- Pan fyddwch yn troi cornel ar gerbyd ATV nad oes ganddo unrhyw ddifferyn neu sydd â'r clo differol ynghlô, mae lle y bydd angen i chi roi pwysau eich corff yn dibynnu ar ba mor sydyn yw'r gornel a pha mor gyflym yr ydych yn teithio. Mae ystum corff cywir yn caniatáu i chi drosglwyddo eich pwysau i du allan y tro trwy'r troedfeinciau tra'n cadw cydbwysedd gyda'r torso. Mae hyn yn caniatáu i'r olwynion mewol lithro ychydig gan ganiatáu i'r cerbyd ATV droi'n gywir.
- Pan fyddwch yn gyrru ar draws llethr, cadwch eich pwysau ar ochr i fyny'r cerbyd ATV.
- Pan fyddwch yn mynd i lawr rhiw, llithrwrch eich pwysau yn ôl, dewiswch gêr isel a defnyddiwch y peiriant i frecio, gan leihau'r angen i ddefnyddio'r brecioau.
- Pan fyddwch yn mynd i fyny rhiw, mae'n bwysig asesu'r llwybr cyn dechrau dringo. Symudwch eich pwysau ymlaen a chadwch i fynd ar gyflymder cyson. Mae'n bwysig eich bod yn symud eich pwysau ymlaen cymaint â phosibl. Os oes angen sefwch ar eich traed a phwyswch ymlaen, gan gadw'r ddwy droed ar y troedfeinciau bob amser a chan gadw momentwm bob amser.
- Peidiwch â chyflymu yn sydyn, am fod hynny'n un o achosion cyffredin damweiniau lle y mae'r cerbyd yn troi drosodd tuag yn ôl, hyd yn oed o gychwyn stond ar dir gwastad lle y mae gafael dda.
- **Peidiwch byth â rhoi eich troed ar y ddaear i sefydlogi cerbyd ATV pan fyddwch yn ei yrru,** ond symudwch eich pwysau ar draws y cerbyd ATV i ffordd o'r anghydbwysedd.
- **Dylech bob amser ddarllen llawlyfr y perchennog.**

## Cyfarpar llusgo a llwythi

Sicrhewch fod pob gyrrwr yn gwybod capasiti halio argymelledig y gweithgynhyrchwr a therfyn llwytho argymelledig y bar halio. Dylech bob amser weithredu o fewn y gofynion hyn. Cofiwch y caiff eich gallu i reoli'r cerbyd ATV trwy symud eich corff ei leihau gryn dipyn pan fyddwch yn cludo llwyth neu'n halio ôl-gerbyd.

- Wrth ddewis cyfarpar llusgo chwiliwch am:
  - freciau gor-redeg;
  - bar halio â bachiad tro;
  - ymylon gleiniau clo ar olwynion;
  - craidd disgyrchiant isel a thrac olwyn llydan;
  - bar halio hir; a
  - manau cysylltu ar gyfer clymu llwythi'n sownd.
- Gwiriwch y gymhareb bwysau rhwng eich cerbyd ATV a'r llwyth y mae'n ei lusgo. Mae angen asesu hyn ar gyfer pob gweithrediad. Fel rheol, ar dir gwastad, gall cyfarpar llusgo â breciau fod hyd at bedair gwaith yn fwy na phwysau di-llwyth y cerbyd ATV. Yn achos cyfarpar llusgo heb freciau dylai'r uchafswm fod ddwywaith y pwysau di-llwyth. Dylech leihau'r llwythi hyn pan fyddwch yn gweithio ar lethrau, tir anwastad neu amgylchiadau arwyneb gwael. Dilynwch gyngor y gweithgynhyrchwr ar gyfer eich peiriant penodol.
- Mae symud pwysau hefyd yn bwysig. Mae'r cerbyd ATV yn fwy sefydlog ac mae'n gallu gwrthsefyll plygu yn ei hanner yn well os trosglwyddir rhywfaint o'r llwyth ar y bar halio. Argymhellir tua 10% o bwysau gros yr ôl-gerbyd llwythog, ond ni ddylai hyn fod yn uwch na therfyn llwytho'r gweithgynhyrchwr ar gyfer y bar halio. Cofiwch y gall trosglwyddiad pwysau newid gryn dipyn pan fyddwch yn dechrau mynd i fyny neu i lawr rhiw.
- Wrth ddewis cyfarpar gosod, sicrhewch ei fod y tu mewn i derfyn pwysau argymelledig y gweithgynhyrchwr, a bod ganddo graidd disgyrchiant isel, a rheolaethau sy'n hawdd eu gweithio ond nad ydynt yn creu perygl. Pan ychwanegir cyfarpar at y naill ben i'r peiriant, ychwanegwch falast at y pen arall i'w gadw'n sefydlog.
- Mae'n rhaid clymu llwythi a gludir ar reseli yn sownd, ee gan ddefnyddio strapiau clicied, ac mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd cyfartal rhwng y tu blaen a'r tu cefn, ac eithrio pan gânt eu newid yn fwrriadol i ychwanegu sefydlogrwydd pan fyddwch yn mynd i fyny neu i lawr llethr.
- Dim ond o'r man clymu y dylech halio llwyth. Mae llwythi a oedd yn cael eu halio o fannau eraill megis y rhesel ôl wedi achosi i gerbydau droi drosodd tuag yn ôl yn sydyn hyd yn oed ar lethrau graddol neu pan nad oedd y cerbyd ond wedi cyflymu ychydig. Ni ddylech ddefnyddio rhaffau na chadwyni i lusgo llwyth pan allant gael eu dal ar olwyn. Gall hynny arwain at raff neu gadwyn yn mynd ynghlwm yng nghebl y brêc, gan achosi i'r cerbyd frecio yn annisgwyl.

## Defnyddio chwistrellwyr

- Dylech ddefnyddio plaladdwyr yn unol â'r *Code of Practice for using plant protection products* a gyhoeddwr gan DEFRA. (Ar gael gan DEFRA Publications, ADMAIL 6000, London SW1A 2XX Ffôn: 08459 55 6000.)

- Dylai offer chwistrellu gydymffurfio â'r argymhellion yn BS EN 907 ar gyfer y safle llenwi (1.5 m uwchben y ddaear a 0.3 m o ymyl y chwistrellwr), systemau (powlen fewnsugno neu system drosglwyddo gaeëdig) a darparu dŵr glân (o leiaf 15 litr fel arfer).
- Pan fyddwch yn prynu clo chwistrellwr chwiliwch am graidd disgyrchiant isel a bafflau mewnol i leihau ymchwydd hylif a fydd yn gwella sefydlogrwydd wrth droi ar lethrau.
- Dim ond cerbydau ATV â bwmau chwistrellu wedi'u gosod ar y tu cefn neu gyfarpar arall sy'n lleihau'r risg y caiff y gweithredwr ei amlygu i bladdwyr y dylid eu defnyddio.
- Peidiwch â dal gwaywffon chwistrellu pan fyddwch yn gyrru eich cerbyd ATV, am fod angen dwy law i'w reoli'n ddiogel.

## Ychwanegiadau

Gwylwch rhag y peryglon posibl sy'n gysylltiedig ag ychwanegiadau nas cymeradwywyd gan weithgynhyrchwyr, ee rheseli a blychau drylliau cartref. Dylech naill ai ddefnyddio ychwanegiadau a gyflenwir/gymeradwyir gan weithgynhyrchwyr neu geisio eu cyngor ar ba mor addas yw'r rhai a gafwyd rywle arall. Bydd unrhyw bwysau a ychwanegir uwchlaw'r craidd disgyrchiant yn gwneud y cerbyd ATV yn llai sefydlog.

## Plant

- Peidiwch byth â chludo plentyn fel teithiwr. Mae'n anghyfreithlon a byddwch yn llai abl i reoli'r cerbyd ATV.
- Mae plant dan 13 oed wedi'u gwahardd rhag defnyddio cerbydau ATV yn y gwaith. Dros 13 oed ni ddylent ond gyrru cerbydau ATV o faint a phŵer priodol, ar ôl iddynt dderbyn hyfforddiant ffurfiol ar gerbyd ATV pŵer isel.
- **Holwch am argymhellion y gweithgynhyrchwr o ran yr isafswm oedran ar gyfer eich cerbyd ATV a glynwch wrthynt.** Mae cymhareb pwysau plentyn i'r cerbyd ATV yn bwysig, am fod trosglwyddo pwysau yn hanfodol bwysig i drafod y cerbyd yn ddiogel.
- Dylech bob amser gyfeirio at lawlyfr y perchennog a labeli rhybuddio ar y peiriant.

## Bariau rholio, strapiau arffed a chabanau tywydd

- Nid argymhellir bariau rholio ar gyfer cerbydau ATV y mae eu gyrrwyr yn eistedd â'u coesau o boptu iddynt. Dangosodd ymchwil eu bod yn fwy tebygol o gynyddu nifer yr anafiadau trwy rwystro'r gyrrwr, naill ai pan gaiff ei daflu oddi ar y peiriant neu pan fydd yn neidio oddi arno pan fydd yn troi drosodd. Mae hyn yn achosi i'r gyrrwr ddisgyn i'r llawr wrth ymyl y cerbyd ATV ac mae'n cynyddu'r tebygolrwydd y caiff ei anafu. Nid yw PUWER yn mynnu bariau rholio pan fyddent yn cynyddu'r risg gyffredinol.
- Ni ddylid gosod strapiau arffed. Maent yn atal y gyrrwr rhag symud ar y peiriant a gallent fod yn angheuol heb gaban llawn neu gawell rholio.


- Mae cabanau tywydd yn cyfyngu ar allu beiciwr i neidio'n glir os bydd y cerbyd yn troi drosodd. Mae'r beiciwr yn debygol o gael ei wasgu o fewn y caban oni bai ei fod yn ddiagon cadarn i wrthsefyll y pwysau a grëir. Aseswch yn ofalus y risgiau ar gyfer yr amgylchiadau penodol lle y byddwch yn defnyddio'r cerbyd cyn llenwi unrhyw strwythur o'r fath ac ymgynghorwch â'r gweithgynhyrchwr i gael gwybodaeth.

### Defnyddio cerbydau ATV ar y ffordd

Er mwyn eu defnyddio ar y ffordd, mae'n rhaid i gerbydau ATV ac ôl-gerbydau gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu a Defnyddio Cerbydau Ffordd 1986 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Goleuadau Cerbydau Ffyrdd 1989 (y gorfodir y ddau gan yr heddlu) ac mae'n rhaid iddynt fod wedi'u trwyddedu yn y dosbarth priodol. Nid oes angen MOT arnynt ac 20 mya yw'r cyfyngiad cyflymder. Dwy ar bymtheg oed yw'r isafswm oedran ar gyfer gyrrwyr ac mae angen trwydded Categori B arnynt.

### Cerbydau ATV y mae eu gyrrwyr yn eistedd ynddynt

Mae cerbydau ATV y mae'r gyrrwyr yn eistedd ynddynt yn cynnwys y Mule, y Rhino, yr Argocat, y Scot-Track, y Gator, y Ranger, yr Hiler, y Goblin a pheiriannau tebyg eraill. Mae ganddynt i gyd seddau confensiynol y mae'r gyrrwr yn eistedd ynddynt ac nid yw'n defnyddio trosglwyddo pwysau i lywio'r cerbyd na rheoli sefydlogrwydd, er bod cydbwysedd llwyth yn bwysig yn hyn o beth. Maent yn amrywio o beiriannau a gynlluniwyd ar gyfer tir garw yn unig i gerbydau cyfleustod, a ddefnyddir yn aml yn gyfan gwbl ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd hefyd.



### Hyfforddiant

Yr un yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer hyfforddiant a'r gofynion ar gyfer cerbydau ATV y mae eu gyrrwyr yn eistedd â'u coesau o boptu iddynt. Dylech ofyn am gyngor ar hyfforddiant gan eich cyflenwyr, darparwyr yr hyfforddiant y cyfeiriwyd atynt uchod neu, yn achos gweithrediadau coedwigaeth, gan y Comisiwn Coedwigaeth.

### Dyfeisiau diogelu rhag rholio a gwregysau diogelwch

Mae'r gofynion ar gyfer y peiriannau hyn yn hollol wahanol i'r rhai ar gyfer cerbydau ATV y mae eu gyrrwyr yn eistedd â'u coesau o boptu iddynt.

- Pan fo risg y bydd y peiriant yn rholio drosodd, mae PUWER yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwr osod rhyw ddyfais i ddiogelu cyflogeion (mae gan bobl hunangyflogedig yr un ddyletswydd iddynt eu hunain). Fel arfer byddai'r ddyfais hon yn gaban, yn ffrâm rholio drosodd neu'n far rholio. Gellid darparu'r cyfryw strwythur naill ai fel rhan o'r peiriant gwreiddiol, neu os caiff ei ychwanegu wedyn, dylid ei farcio CE a dylai gael ei gymeradwyo gan gorff profi cydnabyddedig.
- Dylid gosod dyfeisiau atal megis gwregysau diogelwch a dylent gael eu gwisgo gan y gyrrwr a theithwyr pan fydd bar rholio neu gaban wedi'i osod ar y peiriant.
- Pan fydd peiriant yn beiriant amffibiaidd a phan y'i defnyddir ar ddŵr dwfn yn hytrach na chorstir, gallai'r ataliadau sedd (ac efallai'r ffrâm rholio) gynyddu'r risg gyffredinol yn hytrach na'i lleihau. Yn yr achos hwn, peidiwch â defnyddio ataliadau sedd tra byddwch ar y ddŵr. Aseswch y risg yn gysylltiedig â'r ffrâm rholio yn ôl ei chynllun a pha mor debyg ydyw y caiff y bobl sydd yn y peiriant eu dal pe bai'r peiriant yn suddo.
- Os oes risg y bydd y peiriant yn troi drosodd, dylid diogelu cyflogeion yn y gwaith a gludir yng nghefn cerbydau ATV y mae'r gyrrwyr yn eistedd ynddynt gan ddyfais ddiogelu rhag rholio ac ataliadau sedd.
- Dim ond os ydynt yn deithiwr ac yn gwisgo gwregys diogelwch a gynlluniwyd ac a osodwyd yn gywir y dylid cludo plant yn y cerbydau hyn.

### Parcio

Os oes rhaid i chi barcio ar lethr, dylech bob amser barcio ar ei thraws oni bai ei bod yn rhy serth. Mae damweiniau wedi digwydd lle y mae peiriannau wedi rhedeg i lawr llethrau am fod y brecio mewn cyflwr gwael neu am nad yw'r brecio wedi'u rhoi ar waith yn gywir, yn arbennig pan fyddant yn cael eu llwytho, ac mae symudiadau neu'r cynnydd mewn pwysau yn peri i'r peiriant symud.

### Gwybodaeth bellach

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ac am ddim ar gael trwy archebu drwy'r post gan HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: [www.hsebooks.co.uk](http://www.hsebooks.co.uk) (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth hefyd ar gael o siopau llyfrau a gellir lawrlwytho taflenni am ddim o wefan HSE: [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk))

Er mwyn cael gwybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Linell Wybodaeth HSE Ffôn: 0845 345 0055 Ffacs: 0845 408 9566 Ffôn testun: 0845 408 9577 e-bost: [hse.infoline@natbrit.com](mailto:hse.infoline@natbrit.com) neu ysgrifennwch i Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried yr hyn y mae angen i chi ei wneud.

©   Hawlfraint y Goron Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, heblaw at ddibenion hysbysebu, arnodi neu ddibenion masnachol. Cyhoeddwyd gyntaf 05/99. Cydnabyddwch y ffynhonnell fel HSE.